**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

19 Rhagfyr 2022

Annwyl Paul.

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Tachwedd am gig defaid a safonau marchnata ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru).

Fel y dywedwch yn eich llythyr, mae'r darpariaethau ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru) sy'n caniatáu Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar safonau marchnata yn tarddu o Reoliad (UE) 1308/2013, y Rheoliad CMO, sydd bellach yn un o Gyfreithiau'r UE a ddargadwyd, hynny trwy Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r rhestr yn y rheoliad hwn o gynnyrch amaethyddol y ceir pennu safonau marchnata penodol ar eu cyfer yn ffrwyth blynyddoedd lawer o drafod rhwng sefydliadau Ewropeaidd a'r diwydiant. Er bod y rhestr hon wedi'i hymgorffori mewn deddfwriaeth Gymreig, nid yw hynny'n golygu bod y cynnyrch hyn yn bwysicach na chynnyrch eraill nad oes gofyn am safonau marchnata ar eu cyfer.

Cig defaid yw un o'r prif fwydydd a gynhyrchir yng Nghymru. Mae'n bwysig i'n heconomi amaeth ac i'n diwylliant. Rheolir y ffordd y caiff ei labelu gan Reoliad Gwybodaeth i Ddefnyddwyr (FIC) 1169/2011, sydd hefyd yn elfen o gyfraith yr UE sydd wedi'i dargadw. Mae Erthygl 26 ac Anecs XI o Reoliad FIC yn dweud bod rhaid nodi tarddle'r cig defaid neu'r wlad y daw ohono ar y label. Gorfodir y gofyniad hwn gan Reoliadau Bwyd (Gwybodaeth) 2014 mewn perthynas â busnesau bwyd yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Efallai ichi sylwi sut mae cymal 32(6) o Fil Amaethyddiaeth (Cymru) yn caniatáu i Weinidogion Cymru newid Atodlen 1 y Bil, er mwyn ychwanegu neu ddileu cynnyrch o'r rhestr. Mae'r rhestr yn fwriadol anghyflawn er mwyn gallu diogelu'r sector amaethyddol yn y dyfodol, ac nid yw'n atal cynhyrchion eraill rhag cael eu hychwanegu.

Wrth ddiwygio'r rheoliadau ar safonau marchnata, byddai'n rhaid i mi ystyried effaith y newidiadau hyn ar y fasnach ryngwladol a'r fasnach â gwledydd eraill y DU. Pe bai'r safonau marchnata yng Nghymru'n wahanol i'r rheini yng ngweddill y DU, gallai sefyllfa godi lle byddai gofyn i gynhyrchwyr gydymffurfio â dwy set o reolau ar safonau marchnata. O'r herwydd, rhaid ystyried unrhyw newidiadau posibl yn ofalus rhag creu rhwystrau i fasnach, a'u trafod yn fanwl gyda llywodraethau eraill y DU.

Mae gwledydd y DU wrthi'n gweithio gyda'i gilydd ar reoliadau categoreiddio carcasau defaid er mwyn gwneud y safonau'n fwy effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio â DEFRA a Llywodraeth yr Alban i lunio rheoliadau fyddai'n gwneud y farchnad cig defaid yn fwy effeithlon. Er na fyddai hynny'n effeithio ar safonau marchnata'r cynnyrch terfynol a werthir i'r defnyddiwr, byddai'n golygu y gallai ffermwyr a phroseswyr ddisgwyl pris cyson ar sail ansawdd eu cynnyrch. .

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**